Medi 2026

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Swyddog Grantiau

## Pecyn swydd



# Croeso!

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn bont ymddiriedus rhwng pobl sydd eisiau rhoi a'r cymunedau maent yn gofalu amdanynt. Mae ein gwaith yn adeiladu ar genedlaethau o roddi yng Nghymru, gan ddefnyddio ein harbenigedd mewn dyngarwch cymunedol i gyfeirio cyllid i'r mannau lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Wrth i ni edrych ymlaen at ein strategaeth pum mlynedd newydd, rydym eisiau annog mwy o ddyngarwch a rhoi yng Nghymru, fel y gallwn gryfhau y gefnogaeth a roddwn i gymunedau ac elusennau lleol.

Yn 2025/2026, fe ddyfarnwyd £2.6 miliwn mewn cyllid gennym i 564 o grwpiau ac unigolion. Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn derbyn incwm o'i gronfa waddol, sydd bellach yn gyfanswm o £23 miliwn, yn ogystal â thrwy ddarparu gwasanaethau rhaglenni grantiau ledled Cymru.

Dyma'r amser perffaith i ymuno â ni gan fod y dyfodol yn edrych yn ddisglair. Mae ymchwil diweddar yn dangos rhagolygon cryf ar gyfer twf mewn rhoi drwy gronfeydd cynghori rhoddwyr, a dyngarwch yn gyffredinol.

Mae gennym fwy o waith i wneud i rannu ein stori yng Nghymru, cysylltu â mwy o gefnogwyr, ac i ddangos yn well yr effaith rydym yn ei chael mewn cymunedau lleol.

Mae'r rôl hon yn addas iawn i rywun sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i bobl yng Nghymru. Mae'n gyfle gwych i rywun sy'n chwilio am hyblygrwydd drwy gydbwysedd gwaith a bywyd, ac sydd ei hun yn hyblyg.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog, yn ddelfrydol yn gallu cynnal sgyrsiau neu ysgrifennu yn Gymraeg, ac i helpu i greu a siapio ein grantiau dwyieithog.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn creu amgylchedd gwaith cynhwysol, ac felly'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Rydym am fod mor hygyrch â phosibl ac yn croesawu i chi gysylltu â Claire Buckley, Rheolwr Grantiau, i drafod y rôl ac unrhyw ofynion hygyrchedd. Gallwch anfon e-bost at claire@communityfoundationwales.org.uk i drefnu galwad.

Rydym yn dilyn proses recriwtio deg ac agored sy’n chwalu’r rhwystrau rhag penodi staff talentog o gefndiroedd a chymunedau amrywiol drwy ddileu unrhyw ddata o’r broses llunio rhestr fer a allai ddatgelu hunaniaeth ymgeisydd. Mae ein gwaith casglu data cydraddoldeb yn ddienw a dim ond er mwyn i ni asesu ein cyrhaeddiad y byddwn yn ei ddefnyddio yn hytrach nag er mwyn cyfrannu at y broses recriwtio.

Rydym yn canolbwyntio’n gryf ar les y tîm ac ar ddatblygu sgiliau personol a sgiliau gwaith. Mae digon o gyfleoedd i ddysgu, a chwrdd â phobl ddiddorol sy’n gwneud pethau gwych ledled Cymru.

Drwy’r pecyn hwn, rwy’n gobeithio y byddwch yn mwynhau dysgu ychydig amdanom ni a’r gwaith pwysig sy’n digwydd yma a’ch bod yn teimlo mai ni yw’r math o sefydliad yr hoffech fod yn rhan ohono.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Richard Williams

**Richard Williams**
**Prif Weithredwr**

# Amdanom ni

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn creu daioni drwy haelioni ledled Cymru.

Rydym yn bont ymddiriedus rhwng pobl sydd eisiau rhoi a'r cymunedau maent yn gofalu amdanynt. Mae ein gwaith yn adeiladu ar genedlaethau o roddi yng Nghymru, gan ddefnyddio ein harbenigedd mewn haelioni cymunedol i gyfeirio cyllid i'r mannau lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Rydym yn gweithio'n ddwyieithog ar draws y wlad ac yn deall cryfderau, heriau a chyfleoedd cymunedau gwahanol. Mae'r wybodaeth hon yn golygu nad yw cyllid yn cael effaith un-tro yn unig; mae'n parhau i wneud gwahaniaeth dros amser.

Mae gennym brofiad hir o alluogi dyngarwch ledled Cymru. Rydym yn ymdrin â'r holl brosesau diwydrwydd dyladwy, y gwaith grantio a rheoli cronfeydd, gan sicrhau eu bod yn cael eu buddsoddi'n gyfrifol i gefnogi cymunedau a gwneud y mwyaf o'u heffaith.

Rydym yn credu bod cymunedau cryf angen cefnogaeth hirdymor a hyblyg. Dyna pam rydym yn gweithio gyda rhoddwyr fel y gallant roi mewn ffyrdd sy'n helpu sefydliadau ar lawr gwlad ac unigolion i gynllunio ac ymateb i heriau lleol.

Rydym yn gweithredu dull teg a thryloyw o ariannu, gan ei gwneud yn haws i bobl wneud cais a chael mynediad at gymorth. Rydym yn gweithio'n agored gyda'n partneriaid, gan rannu mewnwelediad a dysgu i gryfhau cymunedau ledled Cymru.








# Manteision gweithio gyda ni

- **Eich llesiant:** trefniadau gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cyfleon hyfforddiant a datblygu yn ogystal a dau ddiwrnod y flwyddyn i wirfoddoli yn eich cymuned leol.
- **Eich iechyd:** 25 diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata ar gyfer gweithio rhan amser) a gwyliau banc yn ogystal â 3 diwrnod o wyliau ychwanegol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac 1 diwrnod ychwanegol ar gyfer eich pen-blwydd, gwyliau ychwanegol ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth di-dor, cynllun beicio i'r gwaith, prawf llygaid am ddim, sesiynau llesiant misol, mynediad at ap Health Assured.
- **Eich diogelwch ariannol:** cynllun pensiwn cystadleuol, adolygiad cyflog blynyddol, tâl mamolaeth uwch, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu, rhaglen cymorth i weithwyr sy'n ymestyn i deulu.











# Ein gwerthoedd

Rydym yn sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae ein gwerthoedd wedi deillio o'n tîm, yn siapio sut rydyn ni'n gweithio ac wedi eu gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

## Dibynadwy

Rydyn ni'n delio â pherthnasoedd, adnoddau a phenderfyniadau yn onest, yn foesol, ac yn dryloyw. O ddydd i ddydd, mae hyn yn golygu:

- Rydyn ni'n atebol am ein penderfyniadau
- Rydyn ni'n trin arian a disgwyliadau pobl yn ofalus
- Rydyn ni'n cyflawni ein hymrwymiadau
- Rydyn ni'n gyfrifol ac yn gweithredu er budd gorau cymunedau a rhoddwyr

## Gofalgar

Rydyn ni'n rhoi pobl yn gyntaf, gan wrando ar ein gilydd ac ar y bobl sy'n gweithio gyda ni. Rydyn ni'n gweithredu gyda charedigrwydd, gan siapio ein gwaith ar sail anghenion lleol a phrofiadau bywyd. O ddydd i ddydd, mae hyn yn golygu:

- Rydyn ni'n gwrando cyn gweithredu
- Rydyn ni'n parchu gwybodaeth a chyd-destun lleol
- Rydyn ni'n trin pobl a chymunedau gyda pharch
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn gweithio mewn ffordd gynhwysol a chroesawgar

## Uchelgeisiol

Rydyn ni eisiau'r gorau i Gymru, i'n sefydliad ac i'n hunain, gan gryfhau haelioni i gynyddu'r effaith i gymunedau. O ddydd i ddydd, mae hyn yn golygu:

- Rydyn ni'n edrych y tu hwnt i'r atebion cyflym a syml, gan fabwysiadu agwedd strategol er mwyn datblygu ein heffaith
- Rydyn ni'n mynd ati i gryfhau a thyfu haelioni yng Nghymru
- Rydyn ni'n herio ein hunain ac ein gilydd i wella ein gwaith
- Rydyn ni'n ymfalchïo mewn sicrhau canlyniadau da a chynnal safonau uchel

## Cydweithredol

Rydyn ni'n gweithio'n agored ac mewn partneriaeth, gan rannu gwybodaeth a meithrin cysylltiadau sy'n cryfhau haelioni ledled Cymru. O ddydd i ddydd, mae hyn yn golygu:

- Rydyn ni'n rhannu arbenigedd
- Rydyn ni'n rhoi cyfle i bobl ddweud eu dweud
- Rydyn ni'n bont gadarn rhwng rhoddwyr, partneriaid a chymunedau ledled Cymru
- Rydyn ni'n cysylltu haelioni ag anghenion cymunedol

# Sut beth yw gweithio yma?

Mae gweithio i Sefydliad Cymunedol Cymru yn brofiad gwerth chweil, mae'n amgylchedd tîm cefnogol sy'n frwd iawn dros helpu cymunedau i ffynnu. Mae cydbwysedd da o waith a hwyl i'w gael bob amser, sy'n fantais wirioneddol.



**Ceri Thomas, Swyddog Grantiau**

Rwy'n hapus iawn yn gweithio yn Sefydliad Cymunedol Cymru. Rydyn ni'n canolbwyntio ar bobl - ein cleientiaid a'n staff. Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn gyflogwr sensitif iawn ac yn addasu i'r amgylchedd gwaith newidiol sydd wedi bod yn esblygu, yn enwedig ers y pandemig, gan gydbwyso hyblygrwydd staff yn berffaith ag anghenion busnes.



**Carol Doyle, Cynorthwydd Cyllid**

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn lle gwych i weithio ynddo, mae'n amgylchedd hamddenol a chyfeillgar ond gyda lefel uchel o broffesiynoldeb. Mae'r agwedd tuag at staff yn ofalgar iawn ac mae lles yn flaenoriaeth allweddol. Yn gyfnewid am hynny, mae'r staff yn rhoi o'u hamser i gyflawni amcanion Sefydliad Cymunedol Cymru. Mae cyfathrebu'n agored ac yn onest ar bob lefel, sy'n helpu i greu tîm cryf sy'n ymddiried yn ei gilydd.



**Smitha Coughlan, Pennaeth Cyllid**

Rydw i wedi gweithio mewn sefydliadau llawer mwy o’r blaen, a beth wnaeth fy nharo pan ddechreuais i weithio gyda Sefydliad Cymunedol Cymru oedd pa mor effeithlon a chadarnhaol oedd pawb yn gweithio gyda’i gilydd i ddod o hyd i atebion i broblemau ac i ddatrys heriau. Mae llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn cyrsiau datblygiad proffesiynol os oes rhywbeth rydych chi eisiau adeiladu arno, ac mae pawb yn cael ei annog i symud ymlaen yn eu rôl. Mae hyblygrwydd yn allweddol yn CFW – os oes angen amser arnoch i fynd i apwyntiad meddyg, gweld drama ysgol eich plentyn neu fynd â’r car am ei MOT, nid yw byth yn broblem ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni eich gwaith, ac rwy’n gwerthfawrogi hynny’n fawr.



**Katy Hales, Cyfarwyddwr Haelioni**







# Mwy am y rôl

Mae'r Tîm Grantiau wrth galon y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, gan gysylltu cyllid â'r bobl a'r cymunedau sydd ei angen fwyaf. Fel Swyddog Grantiau, byddwch yn chwarae rôl bwysig drwy ein helpu i ddarparu cyllid sy'n creu newid cadarnhaol ledled Cymru, gan gefnogi portffolio amrywiol o raglenni grant a meithrin cysylltiadau cryf â'r sefydliadau a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw.


Byddwch yn cefnogi grantiau drwy gydol y daith rhoi grantiau, o'r ymholiad cychwynnol a'r asesiad o'r cais i gyflwyno'r grant, ei fonitro a'i werthuso, a'r adroddiadau effaith. Gan weithio'n agos gydag ymgeiswyr, deiliaid grantiau, rhoddwyr a sefydliadau cymunedol, byddwch yn helpu i sicrhau bod y cyllid yn hygyrch ac ymatebol ac yn cyrraedd y mannau lle y gall wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae'r rôl hon hefyd yn rhan bwysig o gyflawni strategaeth pum mlynedd uchelgeisiol y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Gan gydweithio â chydweithwyr ar draws y sefydliad, yn enwedig o fewn y timau Haelioni a Chyfathrebu a Marchnata, byddwch yn helpu i gyflwyno stori ein cyllid, rhannu'r effaith y mae wedi'i chael ar gymunedau, cryfhau cysylltiadau â rhoddwyr a phartneriaid, a chyfrannu tuag at dyfu ein proffil a'n llais ledled Cymru.












# Disgrifiad swydd
# Swyddog Grantiau

**Oriau:** Llawn amser, 37 awr yr wythnos

**Cyflog:** £29,600

**Atebol i:** Rheolwr Grantiau

**Lleoliad:** Gweithio hybrid – gweithio gartref ac yn swyddfa Caerdydd (o leiaf un diwrnod yr wythnos, gyda dydd Mawrth/Mercher yn ddiwrnodau angor pan gynhelir cyfarfodydd tîm).

**Contract:** Parhaol

**Cyfnod prawf:** Tri mis. Yn amodol ar wiriadau DBS cyn penodi.

# Prif gyfrifoldebau

- Cefnogi ceisiadau grant ar draws portffolio o raglenni grantiau drwy gydol y daith rhoi grantiau, gan ddefnyddio'r gronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) i gadw cofnodion cywir a rheoli rhyngweithiadau o'r ymholiad cychwynnol, y cais a'r broses diwydrwydd dyladwy i'r gwaith monitro, yr adroddiadau effaith a'r broses gyfeirio.

- Asesu ceisiadau grant yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt a gwneud argymhellion ar gyfer cyllid, gan ddefnyddio crynodebau asesu, adroddiadau a'r gronfa ddata CRM.

- Cefnogi a gweinyddu panelau grantiau, gan gynnwys hyfforddi aelodau'r panelau, cofnodi penderfyniadau a chyfathrebu canlyniadau.

- Nodi a rhannu cynnwys atyniadol, astudiaethau achos a storïau effaith o blith y ceisiadau a monitro grantiau gyda'r timau Marchnata a Chyfathrebu a Dyngarwch i gefnogi cyfathrebu allanol ,

- Meithrin a chynnal cysylltiadau cadarnhaol â grwpiau cymunedol, elusennau, rhoddwyr, partneriaid, cydweithwyr a rhanddeiliaid eraill.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol sy'n ofynnol gan y Rheolwr Grantiau a'r Uwch Dîm Rheoli ehangach sy'n gyson â lefel y rôl.

# Sgiliau a chyfrifoldebau allweddol

## Hanfodol

### Profiad

- Profiad o weithio i elusen, yn y sector gwirfoddol, yn y sector cyhoeddus neu mewn amgylchedd swyddfa.
- Profiad o ddefnyddio systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) a chronfeydd data i reoli gwybodaeth a chynhyrchu adroddiadau.
- Profiad o reoli blaenoriaethau sy'n cystadlu a gweithio i amserlenni.
- Profiad o feithrin cysylltiadau cadarnhaol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.
- Profiad o waith gweinyddu, cydgysylltu prosiectau neu reoli rhaglenni gan gynnwys rheoli cyllidebau.
- Profiad o weithio'n effeithiol mewn amgylchedd hybrid a/neu weithio gartref.

### Gwybodaeth a sgiliau

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
- Sgiliau trefnu cryf a llygad am fanylion.
- Gallu dadansoddi gwybodaeth a chynhyrchu adroddiadau clir.
- Sgiliau rhifyddol ac ymdrin â data rhagorol.
- Hyfedredd mewn Microsoft 365, gan gynnwys Word, Excel, Outlook a SharePoint.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Gallu teithio ledled Cymru pan fo angen.

### Nodweddion personol

- Rydych yn cael eich ysgogi gan werthoedd ac yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol mewn cymunedau.
- Gonestrwydd, parch a doethineb.
- Rhagweithiol, hyblyg ac yn canolbwyntio ar atebion.
- Proffesiynol, dibynadwy a threfnus.
- Cyfeillgar a hyderus wrth ymdrin ag amrywiaeth o bobl.

## Dymunol

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sector gwirfoddol a chymunedol Cymru.
- Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ymgeiswyr sydd â phrofiad o system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid Salesforce, gan gynnwys rheoli data, adrodd a gwella prosesau.
- Profiad o weinyddu grantiau, eu hasesu neu eu monitro.
- Profiad o fesur, gwerthuso neu adrodd ar effaith.
- Gallu cyfathrebu yn Gymraeg (dymunol iawn).

# Sut i ymgeisio

**I wneud cais, anfonwch eich CV a'ch llythyr eglurhaol at:**
**recruitment@communityfoundationwales.org.uk**

Yn eich llythyr eglurhaol, cyfeiriwch at y prif sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol, gan nodi beth sydd wedi eich denu at y rôl hon a sut y gall eich profiad a'ch arbenigedd ychwanegu gwerth at ein gwaith, gan helpu Sefydliad Cymunedol Cymru i gyflawni ei nodau.

Yn ogystal â hyn, cwblhewch ein Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal os gwelwch yn dda, a'i dychwelyd i recruitment@communityfoundationwales.org.uk, ynghyd â'ch llythyr eglurhaol a'ch CV. Defnyddir y wybodaeth hon at ddibenion monitro yn unig ac ni chaiff ei rhannu gyda'r panel recriwtio na'i defnyddio fel rhan o'r broses ddethol.

Rydym yn gwybod y gall cyfweliadau deimlo'n frawychus. Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, ein nod yw eich helpu drwy:

- gynnig cyfle i siarad gydag aelod o'n tîm cyn y cyfweliad i sgwrsio am Sefydliad Cymunedol Cymru a'r profiad o weithio yma, er mwyn eich helpu i ddod i'n hadnabod yn well.
- ymrwymo i ddeall yn llawn unrhyw anghenion ychwanegol a/neu ofynion mynediad sydd gennych, a sicrhau bod unrhyw drefniadau angenrheidiol yn eu lle mewn pryd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Claire Buckley, Rheolwr Grantiau: claire@communityfoundationwales.org.uk

Mae'r dyddiadau allweddol a'r camau wedi'u rhestru isod:

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** – 9am ar ddydd Iau 1 Hydref 2026

- **Gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad** – dydd Gwener 2 Hydref 2026

- **Cyfweliadau** – dydd Llun 5 Hydref 2026

# Pob lwc gyda'ch cais!